

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Traphont Ddŵr Pontcysyllte - Pontcysyllte Aqueduct	Charles Dupin	c.1820	Force commerciale de la Grande-Bretagne
---	---------------	--------	--

“Ni welais erioed olygfa mor drawiadol. Yng nghanol tyfiant trwchus, sydd mor iraidd ag erioed, mae tanau’r gweithfeydd haearn, yr odynnau calch a’r glo a droir yn olog, oll yn chwyrlio fflamau a mwg. Mae pentrefi, ffatrioedd, plastai oll wedi’u trefnu megis amffitheatr ar ochrau’r dyffryn. Yn y pen pellaf, cenllif chwim; uwchlaw, gwelir amlen haearn y gamlas yn croesi’r ddyfrbont, wedi’i gosod yno fel drwy ryw swyngyfaredd ar y pileri tal, main o frics; a’r gwaith rhagorol hwn yn ffrwyth beiddgarwch ffortunus un o’r cyfeillion! Wedi ymgolli’n synfyfrio ar gynhyrchion hardd celf a natur, a ymddangosai’n wahanol bob munud wrth i’r goleuni wanhau, arhosais yno fel pe mewn perlewyg hyd i ddiwedd y gwylly fy ngorfodi i adael a cheisio llety ychydig filltiroedd i ffwrdd. Dyna beth welais, ac er na allaf ei ddisgrifio heb ddifetha hud ei wir ymddangosiad, mae dwyn i gof yr emosiwn a ysgogodd y dirwedd ragorol hon ynof yn parhau i gyflymu ‘nghalon.”

“Never have I been struck by a more impressive spectacle. In the midst of vigorous vegetation, that retains all its freshness, the ironwork fires, lime kilns and coal reduced to coak, each offer up swirls of flame and smoke. Villages, factories, country houses arranged like an amphitheatre on the sides of the valley. At the far end, a rapid torrent; up above, the aqueduct

canal offers its envelope of iron, placed there as if by magic on the high and slender brick pillars; and this magnificent work, the fruit of the fortunate audacity of one of my friends! Lost in the contemplation of these beauties of art and nature, that looked different every minute with the dissipation of the dying light, I stayed there as if in ecstasy, until the end of the twilight forced me to leave and seek shelter a few miles away. That is what I saw, and though I cannot describe it without divesting it of the charm of its reality, the memory of the emotion that this admirable landscape caused me still makes my heart beat faster.”

“Nie habe ich einem beeindruckenderen Schauspiel beigewohnt. Inmitten der ungezügelter Vegetation, die sich all ihre Lebendigkeit erhält, stoßen die Eisenverhüttungsstätten, Kalkbrennereien und Kokereien wirbelnde Flammen und Rauchwolken aus. Dörfer, Fabriken und Landhäuser sind an den Rändern des Tales wie in einem Amphitheater angeordnet. Am anderen Ende erhebt sich die elegante Struktur des Aquäduktkanals, als wäre sie von Zauberhand dort auf die schlanken Ziegelsäulen gesetzt worden. Und dieses wunderbare Bauwerk ist das Ergebnis der großartigen Kühnheit eines meiner Freunde! Ich verlor mich in der Bewunderung der Schönheit von Kunst und Natur, die im schwindenden Licht von Minute zu Minute unterschiedlich aussahen. Ich harrete aus, bis mich die heraufziehende Nacht zum Gehen zwang. Dies habe ich dort gesehen und obwohl ich den Anblick nicht beschreiben kann, ohne ihn des Zaubers der Realität zu berauben, lässt die Erinnerung an die Gefühle, die diese beeindruckende Szenerie in mir auslöste, mein Herz noch immer höherschlagen.”

“Jamais spectacle plus imposant n’a frappé mes regards. Au milieu d’une végétation vigoureuse, et conservant encore toute sa fraîcheur, les feux des forges, des fours à chaux et des charbons réduits en coaks, élevant leurs tourbillons de flamme en fumée. Des villages, des fabriques, des maisons de plaisance se déployant en amphithéâtre sur les flancs de la vallée. Dans le fond, un rapide torrent; par-dessus, le canal aquéducatif offrant son enveloppe de fer, posée comme par enchantement sur les hauts et minces piliers de brique; et ce magnifique ouvrage, fruit de l’heureuse audace d’un de mes amis! Perdu dans la contemplation de ces beautés de l’art et de la nature, qui, par dégradations d’une lumière mourante, variaient à chaque instant leur aspect, je suis resté comme en extase, jusqu’à ce que la fin du crépuscule me forçât à m’éloigner pour chercher un asile à quelques milles de distance. Voilà ce que j’ai vu, ce que je ne puis rendre sans le dépouiller des charmes de la réalité et qui, pourtant, fait encore battre mon cœur au souvenir des émotions que produisit en moi cet admirable paysage.”

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Traphont Ddŵr Pontcysyllte - Pontcysyllte Aqueduct	Georg Dittler	1830	Hydrotechnische Bemerkungen gesammelt auf einer Reise durch England, Holland, Nord- und Süddeutschland im Jahre
---	---------------	------	---

“Agorwyd y strwythur hwn, a ddyfeisiwyd gan y peiriannydd Telford, i'r cyhoedd ym 1805. Dywedir iddo gostio £648,000 i'w adeiladu, gyda'r gwaith haearn yn unig yn gyfrifol am £204,000 o hynny.

Mae'r olwg gyntaf ar y bont hon yn creu argraff drawiadol yn barod. Mynnaf fod ei uchder a'i thaldra yn gyffredinol ac ysbrydolrwydd ei ffurf allanol yn mynnu ein holl sylw yn gymaint â beiddgarwch gwireddu'r syniad mawreddog. Ar ôl archwilio'r adeiladwaith hwn yn fanwl iawn ac wedi'n hargyhoeddi o symlrwydd y modd y mae'n cyflawni ei ddiben, fe gyrhaeddwn bellach safle ar lan y llifeiriant cyflym hwn lle gallwn weld y strwythur cyfan. Mae ein syndod bellach yn gymysg a pharch dwfn yn wyneb athrylith yr adeiladydd meistrolgar – nid yn unig y bu iddo feddwl am syniad mor feiddgar ond hefyd fe lwyddodd i'w gyflawni mewn ffordd mor syml.

Yn y cyfamser, rhaid cydnabod bod prydferthwch natur yn Nyffryn Clwyd yn cyfrannu'n sylweddol at wychder y strwythur hwn. Efallai fod ei enwogrwydd cyffredinol, neu o leiaf rhan fach o hynny, yn deillio o'r amgylchiadau anarferol o brydferth, sy'n denu teithwyr o bob dosbarth a chenedl, i weld ei adeiladwaith synhwyrol, ymarferol a beiddgar.”

“This structure, conceived by the engineer Telford, was opened to the public in 1805. The cost of building is said to have amounted to £648,000, £204,000 of which accounting for the iron work alone.

The first glimpse of this bridge already leaves a striking impression. Its general height and loftiness, I say, the spiritedness of its external form as much as the daring in executing the grand idea demand our complete attention. Having inspected this construction in all its parts with great precision and convinced by the simplicity of the means to its end, we now arrive at a spot on the banks of this rapid torrent from which we can overlook the entire structure. Our amazement now intermingles with a deep respect before the genius of the master builder, who not only conceived of such a daring idea, but was also able to bring it to fruition with such simple means.

Meanwhile, it must be recognised that the beauties of nature of the Dee Valley contribute greatly to the elevation of this structure. Perhaps, its general fame, or at least a small part of it, is as much owed to the exceptionally beautiful surroundings, which attracts travellers of all stations and nations, as to its sensible, functional and daring construction.”

“Im Jahr 1805, wurde dieses von dem Ingenieur Telford entworfene Bauwesen dem Publikum geöffnet. Die Erbauungskosten sollen sich auf 648.000 £ belaufen haben, worunter 204,000 £ für das Eisenwerk allein begriffen sind.

Schon der erste Eindruck des Anblicks dieser Brücke ist imponierend, ihre allgemeine Größe und zugleich das Luftige, das möchte ich sagen, das Geistige der äußeren Form, so wie die Kühnheit in der Ausführung dieser grossartigen Idee, nehmen unsere ganze Aufmerksamkeit in Anspruch. Wenn wir dieses Gebäude in allen seinen Theilen genau gemustert und uns von der Einfachheit der Mittel zum Zweck überzeugt und nun an dem Ufer des reissenden Stroms einen Standpunkt gesucht haben, von dem wir das Ganze überschauen können, so gesellt sich zu unserm Erstaunen noch eine Hochachtung vor dem Genie des Baumeisters, das nicht nur diese kühne Idee auffassen, sondern auch mit so geringen Mitteln ins Leben rufen konnte.

Indessen ist nicht zu verkennen, dass die Naturschönheiten des romantischen Deethals sehr viel zur Erhebung dieses Bauwesens beigetragen, und dass es vielleicht seine allgemeine Berühmtheit – wenigstens gewiss einen Theil davon – eben so sehr seiner ausgezeichnet schönen Umgebung, welche von Reisenden aller Stände und Nationen besucht zu werden pflegt, als seiner sinnreichen, zweckmäßigen und kühnen Konstruktion zu verdanken mag.”

“Cette structure, conçue par l’ingénieur Telford, ouvrit au public en 1805. On dit que le coût de la construction s’est élevé à 648 000 livres sterling, dont un montant de 204 000 livres sterling dépensé seulement pour le travail de ferronnerie.

Le premier aperçu de ce pont laisse déjà une impression saisissante. Sa hauteur et sa grandeur générale, ma foi, la fierté de sa forme externe autant que l'audace dans l'exécution de la grande idée exigent notre attention complète. Après avoir examiné cette construction dans son intégralité avec grande précision et convaincu par la simplicité des moyens utilisés, nous arrivons maintenant à un endroit sur les rives de ce torrent rapide à partir desquelles nous pouvons surplomber l'ensemble de la structure. Notre ébahissement se mêle maintenant à un profond respect devant le génie de l'architecte, qui a non seulement conçu une telle idée audacieuse, mais a également été en mesure de mener à bien ce projet avec des moyens si simples.

Entre-temps, il faut reconnaître que les beautés de la nature de la vallée de la Dee contribuent grandement à l'élévation de cette structure. Peut-être, sa renommée générale, ou au moins une petite partie de celle-ci, est autant due à l'environnement d'une beauté exceptionnelle, qui attire des voyageurs de tous rangs et de toutes nations, qu'à sa construction logique, fonctionnelle et audacieuse."

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Traphont Ddŵr Pontcysyllte - Pontcysyllte Aqueduct	Samuel Heinrich Spiker	1816	Reise durch England, Wales und Schottland im Jahre
---	---------------------------	------	---

“Yn fuan wedyn, caiff y llygaid eu denu at y ddyfrbont odidog dros Afon Dyfrdwy, ac yn arbennig gan y lliwiau cyferbyniol sydd arni; mae’r bwâu o haearn ac yn ymddangos yn ddu, tra mae’r pileri, o dywodfaen, yn ymddangos yn llachar felyn. Ar y ddyfrbont hon y cludir camlas Ellesmere dros yr hafn y llifa Afon Dyfrdwy drwyddi, ar ei thaith drwy Sir Ddinbych. I gyrraedd y bont, rhaid i ni ddisgyn o’r ffordd uwchlaw iddi a cherdded tuag ati ar hyd llwybr ochr sy’n croesi pont godi. Enw’r man cyfagos yw Pont y Cysylltau, a dyna pam y gelwir y ddyfrbont yn aml wrth yr enw hwnnw. Dechreuwyd adeiladu’r bont yn y flwyddyn 1795, o dan oruchwyliaeth y peiriannydd enwog, Mr Thomas Telford, a’i hagor ar 29ain Tachwedd, 1805. Dywedir mai hyd y cyfan yw 1007 troedfedd; ei huchder o wyneb yr afon hyd linell uchaf y canllaw yn 126 troedfedd, a’i lled tua deuddeg troedfedd o fewn y gwaith haearn. Mae’r deunaw piler o dywodfaen gwych yn sefyll tua phum troedfedd a deugain oddi wrth ei gilydd ac maent wedi eu cysylltu â bwâu o haearn bwrw, sy’n cyfuno harddwch a gwydnwch ac yn rhoi ymddangosiad ystwyth i’r cyfan, nad yw pontydd dŵr Glasgow a Chaerhirfryn yn meddu arno. Roedd rhychwant y bwâu tuag ugain troedfedd i’r tyb i. Mae’r canllaw hefyd wedi ei wneud o haearn, gyda barrau ar un ochr ond platiau haearn wedi eu cysylltu’n gadarn â’i gilydd â rhybedion ar y llall. Mae’r cychod y cludir y glo arnynt ar hyd y gamlas yn gul iawn ac yn cael eu



tynnu gan geffylau. Ar ddiwedd y ddyfrbont hon mae basn bach gyda loc yn gysylltiedig megis yn achos y ddyfrbont yng Nghaerhirfryn.”

“Shortly afterwards the eye is attracted by the magnificent aqueduct, over the Dee, and especially by the contrast of colours which it exhibits; the arches are of iron, and appear black, while the piers, which are of sandstone, appear of a bright yellow. By this aqueduct the Ellesmere canal is carried over the ravine through which the Dee flows, and runs through Denbighshire. To reach it, we must descend from the road which is higher than it, and proceed to it along a side path that crosses a draw bridge. The place near which it is situated is called Pont y Cysylltau, whence the Aqueduct itself frequently goes by that name. It was commenced in the year 1795, under the direction of the celebrated engineer, Mr. Thomas Telford, and opened on the 29th November, 1805. The length of the whole is said to be 1007 feet; its height from the surface of the river to the upper line of the balustrade 126 feet, and its width about twelve feet within the iron work. The eighteen piers of excellent sand stone on which it rests are about forty-five feet distant from each other, and connected by arches of cast iron, which combine elegance with durability, and give the whole an appearance of lightness in which the aqueducts of Glasgow and Lancaster are deficient. The span of the arches appeared to me to be about twenty feet. The balustrade is likewise of iron, consisting of bars on the one side, but on the other of iron plates, rivetted fast to each other. The crafts by means of which the coal navigation is carried on through the canal are very narrow, and drawn by horses. At the end of this aqueduct there is a small basin with a lock to it, as in the aqueduct at Lancaster.”

“Bald nachher fällt der prächtige, über den Dee geschlagene, Aqueduct ins Auge, und zwar vorzüglich durch den Gegensatz der Farben, welchen die Schwärze des Eisens, aus dem die Bogen bestehen, und die hochgelbe Farbe des Sandsteins, aus welchem die Pfeiler erbaut sind, gegen einander bilden. Durch ihn wird der Canal von Ellesmere über die Schlucht geführt, in welcher der Dee fließt, und so weiter durch Denbighshire geleitet. Um zu demselben zu gelangen, muß man von der höher gelegenen Landstraße herabgehen, und einen Seitenweg einschlagen, welcher über eine Zugbrücke führt, über die man zu demselben kommt. – Der Ort, in dessen Nähe er liegt, heißt Pont y Cysylltau, weßwegen auch der Aqueduct sehr oft nach ihm benannt wird. Er wurde im Jahre 1795 unter der Leitung des berühmten Ingenieurs und Wasserbaumeisters, Th. Telford, angefangen, und am 29. Nov. 1805 eröffnet. Die Länge des Ganzen beträgt, der Angabe nach, 1007 Fuß, die Höhe von dem Spiegel des Flusses bis zur oberen Linie des Geländers 126 Fuß, und die Breite desselben, innerhalb des Eisenwerks, gegen 12 Fuß. Die 18 Pfeiler, von trefflichem Sandsteine, sind von einander 45 Fuß entfernt, und durch Bogen von gegossenem Eisen verbunden, welche Zierlichkeit mit Dauer vereinigen, und dem Ganzen ein Ansehen von Leichtigkeit geben, das den Aqueducten von Glasgow und Lancaster abgeht. Ihre Spannung schien mir ungefähr 20 Fuß zu betragen. – Das Geländer ist ebenfalls von Eisen, und auf der einen Seite aus Stäben, auf der anderen aber aus aneinandergfügten Eisenplatten bestehend. Die Boote, in denen die Kohlenschiffahrt auf dem Canale betrieben wird, sind äußerst schmal, und werden von Pferden hinübergezogen. Am Ende des Aqueducts ist, wie bei dem von Lancaster, ein kleines Bassin mit einer Schleuse angebracht.”

“Peu après, l’œil est attiré par le magnifique aqueduc, au-dessus de la Dee, et surtout par le contraste des couleurs qu’il présente ; les arcades sont de fer et semblent noires, tandis que les piliers, qui sont en grès, semblent de couleur jaune vif. Le canal Ellesmere est porté par l’aqueduc au-dessus du ravin, qui est irrigué par la Dee, et traverse le Denbighshire. Pour l’atteindre, nous devons descendre la route qui est plus élevée que lui, et passer le long d’un sentier qui traverse un pont-levis. L’endroit près duquel il est situé s’appelle Pont y Cysylltau, raison pour laquelle l’Aqueduc porte souvent ce nom. Sa construction fut entreprise en 1795, sous la direction du célèbre ingénieur M. Thomas Telford, et il ouvrit le 29 novembre 1805. On dit que la longueur de l’ensemble mesure 1 007 pieds ; sa hauteur à partir de la surface de la rivière jusqu’à la ligne supérieure de la balustrade est de 126 pieds, et la largeur de sa cuve en fer forgé est de douze pieds environ. Les 18 piles remarquablement maçonnées sur lesquelles il repose se trouvent à une distance d’environ quarante-cinq pieds les unes des autres, et sont connectées par des arches en fonte qui allient l’élégance et la durabilité, et confèrent à l’ensemble une apparence de légèreté qui fait défaut aux aqueducs de Glasgow et Lancaster. L’envergure des arches me semblait être d’environ 20 pieds. La balustrade est également de fer, composée de barres d’un côté, mais de plaques de fer vissées fermement les unes aux autres de l’autre côté. Les bateaux permettant le transport du charbon sur le canal sont très étroits et sont halés par des chevaux. Au bout de ce pont-canal, il y a un petit bassin avec une écluse, comme dans l’aqueduc de Lancaster.”